| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **13 Medi 2016** |
| **TEITL** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd John Wynn Jones** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |

## 1.0 CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiadau yma yw diweddaru ar lle'r ydym arni o ran gwireddu addewidion y Cynllun Strategol; sut mae'r mesurau perfformiad arni ac amlinellu'r diweddaraf ar gynlluniau arbedion.

Yr unig addewidion sydd yn berthnasol i'r Cynllun Strategol yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad ar rain yn rhan 2.

Yn ogystal rwyf yn crybwyll y sefyllfa gyda mesurau perfformiad yn rhan 3 o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth a'r maes Carbon.

## 2.0 ARBEDION EFFEITHLONRWYDD

### Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor i'r Cynlluniau Toriadau, lle byddai'r cynllun o gau 50 o doiledau cyhoeddus yn arwain at arbediad o £244,000, roedd y cynllun Effeithlonrwydd hanesyddol "Toiledau Cyhoeddus" (Eff 1% PB17 - £40,000) i symud yn ei flaen law yn llaw. Fodd bynnag, mae modd amgen o wireddu'r arbediad cyfan wedi ei gefnogi gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 19 Mai ac yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet ar y 7fed o Fehefin byddwn yn gweithredu y cynllun hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod yr arbediad yn cael ei wireddu yn llawn un ffordd neu'r llall.

Mae dau o gynlluniau 2015/16 heb eu gwireddu, sef Arbedion Ynni Ffridd Rasus (PB9 - £20,000) fydd yn llithro i 2017/18, a Rhesymoli Banciau Ailgylchu (PB19 - £40,000), lle mae camau mewn llaw er gwireddu yn ystod 2016/17.

O ran gweddill y cynlluniau, mae'r Adran yn gwneud cynnydd derbyniol iawn, gyda 78% o arbedion Effeithlonrwydd 2016/17 wedi eu gwireddu, ynghyd ag 89% o doriadau'r flwyddyn. Mae'r rhagolygon gogyfer a 2017/18 hefyd yn addawol.

### Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd

Mae'r Adran wedi gwireddu'r oll o gynlluniau Effeithlonrwydd a Thoriadau 2016/17, a'r rhagolwg yn addawol iawn gogyfer a'r flwyddyn ganlynol.

**3.0 MESURAU**

Ceir rhestr llawn o'r mesuryddion perfformiad yn *Atodiad 1* ond fe nodir y prif faterion y dymunaf eu dwyn i'ch sylw isod:

**Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

**STS/005a Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd** – Nodir fod y perfformiad yn parhau i fod yn uchel (81%) gyda ffigyrau yn dangos ein bod y 3ydd orau yng Nghymru. Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffaith y bydd cylchdeithiau glanhau yn digwydd yn llai aml o fis Awst ymlaen o ganlyniad i'r toriadau ac y gallwn weld gostyngiad yn y perfformiad. Rwyf wedi cytuno i gadw golwg ar y sefyllfa ac hefyd wedi gofyn i'r Adran edrych ar y sefyllfa o fewn awdurdodau yn Lloegr er mwyn ceisio sefydlu os y bu effaith yn sgil y toriadau a wnaethpwyd yno ac os oes gwersi y gallwn eu dysgu.

**WMT/004 Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi** – Nodir fod yr amcan o ran perfformiad (40%) ychydig yn uwch o ganlyniad i'r ffaith na fu i gymaint o'r gwastraff na'r disgwyl fynd trwy'r broses Triniaeth Biolegol Fecanyddol (neu MBT) oherwydd fod y cyfleuster hyn wedi torri ym mis Ebrill.

Yn y cyfarfod monitro perfformiad diwethaf bu i ni drafod sefydlu mesur ar gyfer y nifer o gasgliadau gwastraff/ailgylchu sy'n cael eu methu fel ein bod yn gallu adnabod y rhesymau dros hynny a rhoi sylw i'r agweddau y gallwn ddylanwadu arnynt. Mae rhywfaint o waith eisoes wedi ei wneud i edrych ar hyn gyda 634 o gasgliadau wedi eu methu yn ystod Ebrill (0.18%) a 529 ym mis Mai (0.15%) allan o gyfanswm o 349,532 o gasgliadau a wneir mewn mis ar draws y Sir. Bydd y mesur hyn yn cael ei gynnwys o fewn y set o fesurau y byddwn yn adrodd arno yn y cylch nesaf.

Fe sylwch fod mesurau THS/009, PB8 a PB9 yn fesurau sy'n cael eu mesur yn flynyddol ar hyn o bryd er bod modd eu mesur yn amlach. O ganlyniad, rwyf wedi gofyn i'r Adran eu mesur yn amlach a bydd yr wybodaeth ddiweddaraf arnynt yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**Adran Rheoleiddio**

**Eiddo 9 - Canran y lleihad yn lefel yr allyriadau carbon sy'n cael ei gynhyrchu trwy weithgareddau'r Cyngor** - Rwy'n falch o adrodd fod gweithredu y Cynllun Rheoli Carbon yn parhau i arwain at leihad yn ein ôl troed carbon gyda gostyngiad o 26.20% wedi ei sicrhau yn allyriadau y Cyngor er 2005/06.

2015/16 oedd y flwyddyn gyntaf ar gyfer y Cynllun Rheoli Carbon 2 a nodir y bu lleihad o 1.8% yn ein cyfanswm allyriadau ers y llynnedd. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwelliant o 9.4% ar oleuadau stryd a 10.2% ar deithio busnes. Mae'r arbediad ar deithio busnes i weld yn uchel ac 'rydym yn ymchwilio i sefydlu pam.

Yn ogystal a'r buddion amgylcheddol sydd ynghlwm a gwireddu'r Cynllun hwn ceir arbedion ariannol cysylltiedig ac amcangyfrifir fod y Cynllun erbyn hyn yn cyflawni arbedion o bron i £900,000 yn flynyddol.

## 4.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'r adroddiad sydd gerbron yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad yn y maes. Yn amlwg, mae rhai materion yn mynd â sylw'r Aelod Cabinet ac mae'n dda gweld bod sylw yn cael ei roi i'r materion hynny. Nid y lleiaf fydd gwireddu'r arbedion y mae'n rhaid eu gweithredu. Yn amlwg, mae gweithredu ar y cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo neu gynlluniau amgen yn eu lle yn allweddol o ran iechyd ariannol y Cyngor.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.